OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 No. 932

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchmynion Cychwyn Rhif 5, Rhif 6, Rhif 8, Rhif 13 a Rhif 14) 2023

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022**

**6.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 14 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2022(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 9 mewnosoder—

> "**9A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2023 ac sydd ym mlwyddyn 6 neu ym mlwyddyn 10 yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024 neu a fyddai yn y naill neu'r llall o'r grwpiau blwyddyn hynny pe bai'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir.
>
> (2) Oni bai bod y gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, rhaid i'r awdurdod lleol priodol roi naill ai hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i'r plentyn a rhiant y plentyn yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024.".

(3) Yn erthygl 10—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "erthygl 9" mewnosoder "na 9A".

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "2023-2024" mewnosoder "neu'r flwyddyn ysgol 2024-2025".

(4) Yn erthygl 12(1), ar ôl "erthyglau 9," mewnosoder "9A,".

(5) Yn erthygl 14(1)(b), ar ôl "2022-2023," mewnosoder "neu a fyddai mewn dosbarth meithrin neu yn unrhyw un o'r grwpiau blwyddyn hynny pe bai'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir,".

(6) Ar ôl erthygl 14 mewnosoder—

> "**14A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i blentyn—
>
> (a) a oedd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd ar 1 Medi 2022,
>
> (b) a oedd ym mlwyddyn 6 neu ym mlwyddyn 10 yn ystod y flwyddyn ysgol 2023-2024 neu a fyddai yn y naill neu'r llall o'r grwpiau blwyddyn hynny pe bai'r plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir, ac
>
> (c) nad yw'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas ag ef ar 30 Awst 2024.
>
> (2) Ar 31 Awst 2024—
>
> (a) mae'r gyfraith newydd yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn, a
>
> (b) mae'r hen gyfraith yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn.".

(**1**) O.S. 2022/897 (Cy. 194) (C. 61).

(7) Yn erthygl 15, yn lle "2024", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "2025".

(8) Yn erthygl 20(4)(a), ar ôl "9(2)" mewnosoder ", 9A(2),".

(9) Yn erthygl 21(3)(a), ar ôl "9(2)" mewnosoder ", 9A(2),".